

Gorwelion Newydd:

awgrymiadau ar gyfer cyfnod newydd
mewn cynllunio iaith yng Nghymru

Awst 2010



y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning



y ganolfan cynllunio iaith

welsh centre for language planning

Cyhoeddir gan:

IAITH Cyf.
Parc Busnes Aberarad
Castellnewydd Emlyn
Sir Gaerfyrddin
SA38 9DB

Ffôn: 01239 711668
post@iaith.eu
www.iaith.eu

ISBN: 978 1 900563 10 9

Cyhoeddwyd: Awst 2010
Hawlfraint: iaith Cyf.
Cedwir pob hawl.

Awdur: Gareth Ioan

Gorwelion newydd:

... sicrhau datganiad clir a diamwys am statws swyddogol y Gymraeg.

... sefydlu set o wasanaethau cyhoeddus y bydd gan bob siaradwr Cymraeg (ac eraill) hawl ddiymwad iddyn nhw.

... sefydlu 'model both ac olwyn' er mwyn gweithredu'r Strategaeth Iaith Genedlaethol.

... sefydlu Academi Cynllunio Corpws Iaith ar gyfer Cymru.

... llunio strategaeth datblygu economaidd mewn perthynas â hyfywedd y Gymraeg.

... pennu Caerfyrddin, Aberystwyth a Glannau Menai yn ardaloedd twf o ran datblygu economi sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg.

... hyrwyddo'r cysyniadau o weithleoedd a gweinyddiaeth ddwyieithog yn y sector cyhoeddus.

... dargyfeirio'r gyllideb Cymraeg i Oedolion i gynnal rhaglen genedlaethol drwyadl i ddysgu a gloywi iaith gweithwyr mewn sefydliadau cyhoeddus.

... sefydlu Cynhadledd Genedlaethol Sefydlog i ddatblygu polisi cydlynus ym maes tai a chynllunio.

... datblygu *modus operandi* newydd i'r mentrau iaith ar sail egwyddorion datblygu cymunedol cadarn.

... sefydlu tystysgrif ôl-radd mewn Cynllunio Iaith Cymhwysol a fyddai'n gymwys ar gyfer cyd-destunau cymunedol a chorfforaethol.

... cynllunio addysg Gymraeg ar sail ranbarthol yn hytrach nag ar sail sirol.

... datblygu addysg cyfrwng Cymraeg i fod yn norm mewn rhannau helaeth o'r gyfundrefn Addysg Bellach.

... awdurdodau lleol i sicrhau'r budd mwyaf o'r buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg cyfrwng Cymraeg trwy sicrhau dilyniant mewn addysg Cymraeg a gosod eu disgwyliadau ieithyddol fel cyflogwyr.

... grymuso athrawon i gefnogi rhieni a theuluoedd yn eu dewisiadau iaith o blaid y Gymraeg.

... sefydlu Coleg Gweinyddiaeth Gyhoeddus yng Nghymru i hyrwyddo ethos Cymreig a Chymraeg yn y gwasanaeth sifil drwyddi draw.

Cyflwyniad

Mae'n ddyddiau difyr ar gynllunio iaith yng Nghymru, gyda nifer o gonglfeini'n cael eu gosod yn eu lle ar gyfer cyfnod newydd yn hanes y Gymraeg.

Mae'r Mesur Iaith newydd yn gweu ei ffordd drwy goridorau'r Cynulliad ac yn ei sgil ymddengys bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn wynebu ei dranc. Cyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg ym mis Ebrill eleni ac mae disgwyl eiddgar am Strategaeth Iaith Genedlaethol i ddisodli'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog, Iaith Pawb. Bydd holl bensaerniaeth cynllunio iaith yng Nghymru yn hongian wrth fframweithiau'r dogfennau hyn yn o fuan. Ond pa mor sefydlog fydd y cerrig sylfaen newydd hyn mewn gwirionedd? Pa mor safadwy fydd yr hyn a adeiladir arnyn nhw? A ydyn nhw'n medru dal pwysau'r cyfrifoldeb?

Wrth i'r drafodaeth gyhoeddus a'r trafod preifat ddatblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe wahoddodd IAITH: y ganolfan cynllunio iaith nifer o unigolion blaenllaw o rychwant o feysydd at ei gilydd ar dri achlysur - yn Aberystwyth, Llanelli a Dyffryn Conwy - i drafod y datblygiadau diweddaraf ac i geisio bwrw golwg ymlaen dros y gorwel nesaf er mwyn gosod arwyddion ar gyfer rhai llwybrau a thrywyddau newydd yng nghyswllt cynllunio iaith yng Nghymru.

Ffrwyth y trafodaethau hynny, ynghyd â thrafodaethau eraill o fewn y Ganolfan, yw'r pamffled hwn. Cynhaliwyd y trafod dan Reol Chatham House, felly ni thadogir syniadau na daliadau i unrhyw unigolion. Nid yw IAITH chwaith yn hawlio'n bod ni'n cytuno â phob sylw a syniad a nodir yma. Ein bwriad, yn unig, yw cyflwyno rhai o'r syniadau a'r sylwadau a gododd yn ystod y trafodaethau hynny er mwyn i eraill fedru cnoi cil arnyn nhw ac ehangu'r drafodaeth ar y materion dan sylw.

Fe welwch y syniadau wedi eu crynhoi yn y ddogfen hon dan bum pennawd:

- Deddfwriaeth iaith
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Cymunedau â chanran uchel o siaradwyr Gymraeg
- Addysg Cyfrwng Gymraeg
- Gwneuthurwyr polisi: Y Gwasanaeth Sifil

Boed i'r dyddiau difyr a'r drafodaeth barhau.

1. Deddfwriaeth iaith

Bu cryn ddisgwyl a chryn drafod ar y mesur iaith ers ei gyhoeddi ym Mawrth 2010. Bu themâu'r drafodaeth yn gyson:

- sut orau i atgyfnerthu statws y Gymraeg?
- sut orau i sicrhau hawliau i siaradwyr Cymraeg?
- beth fydd swyddogaethau'r Comisiynydd?
- sut orau i ddiwygio a chryfhau Cynlluniau Iaith Gymraeg fel mecanwaith i sicrhau gwasanaethau Cymraeg?

1.1 Statws

Byddai cael datganiad clir a diamwys o statws swyddogol y Gymraeg yn Neddf Iaith 2011 yn hynod dderbyniol ac yn gam i'w groesawu. Serch hynny, tybed ai ail ymladd brwydrau'r 70au mae'r lleisiau sy'n gweiddi'n groch am gryfhau statws y Gymraeg? Wedi'r cyfan, statws swyddogol *de facto* sydd gan yr iaith Saesneg yn y Deyrnas Gyfunol, a hynny yn sgil ei defnydd helaeth. Oni ddaw statws *de facto* i'r Gymraeg yng Nghymru hefyd maes o law o ehangu ei defnydd yng nghoridorau grym? Tybed nad oes yna frwydrau rheitiach i deilyngu ein hegri ni.

1.2 Hawliau

Dyna i chi hawliau iaith, er enghraifft. Ni allwn ddyfalu beth fydd cynnwys fersiwn nesaf y Mesur Iaith o ran hawliau i unigolion ond tybed na allwn ddisgwyl rhestr graidd o hawliau i wasanaethau cyhoeddus dethol yn rhan o'r pecyn o safonau newydd? Dywed y Llywodraeth mai egluro'r ddarpariaeth mewn modd symlach ac uniongyrchol yw ei bwriad drwy gyflwyno safonau gwasanaeth newydd. Beth, felly, sy'n gliriach na set o wasanaethau y bydd gan bob siaradwr Cymraeg (ac eraill) hawl ddiymwad iddyn nhw? Cawn weld.

1.3 Y Comisiynydd

Y mater lleiaf dadleuol yn y Mesur, mae'n siŵr, yw'r bwriad i sefydlu Comisiynydd. Ymddengys bod croeso cyffredinol i'r syniad ac awydd mawr i'r Comisiynydd gael y pwerau cryfaf posibl i sicrhau gweithrediad llwyddiannus y Ddeddf. Dengys profiadau gwledydd a rhanbarthau eraill fod presenoldeb Comisiynydd pwerus yn medru dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar sefyllfa ieithoedd llai, o ran ansawdd gwasanaeth a lefelau defnydd. Cynyddu'r defnydd yw'r allwedd, wrth gws. Gall Comisiynydd grymus a dylanwadol hybu cylch rhinweddol wrth godi statws a bri'r Gymraeg eto fyth; sicrhau gwasanaethau Cymraeg sy'n gynyddol eglur ac effeithiol; codi hyder siaradwyr yn y gwasanaethau hynny a'u gallu i'w defnyddio; cynyddu'r defnydd a wneir o wasanaethau cyhoeddus Cymraeg o'r herwydd; newid arferion ac, yn anuniongyrchol, cryfhau a chynyddu'r defnydd cymdeithasol a wneir o'r Gymraeg yn gyffredinol.

1.4 Cynlluniau Iaith Gymraeg

Serch gwendidau'r drefn gyfredol o ran sicrhau cydymffurfiaeth a chysondeb gwasanaeth, mae'r syniad o gael gwared â'r drefn gyfredol o Gynlluniau Iaith Gymraeg yn peri cryn ofid i nifer o Swyddogion Iaith mewn cyrff cyhoeddus. Nid poeni am eu swyddi maen nhw ond pryderu y bydd y cydsynio a'r cydweithredu corfforaethol sydd wedi ei adeiladu mor ofalus dros y 15 mlynedd diwethaf yn cael eu 'sgubo o'r neilltu a threfn llawer mwy mecanyddol a dieneiniad yn dod yn eu lle. Mae pryder nad yw'r gweision sifil sydd wrthi'n cynllunio'r drefn newydd yn meddu ar brofiad ymarferol yn y maes ac nad ydyn nhw'n llawn sylweddoli nac yn gwerthfawrogi'r prosesau deinamig cysylltiol sydd ynghlwm wrth greu newid ieithyddol go iawn mewn sefydliadau. Ceir pryderon hefyd am golli momentwm a gwastraffu egni wrth i swyddogion iaith orfod datgymalu un system a gosod un newydd yn ei lle.

Tybed nad oes yna elfen o eironi yn y fan hon, gyda'r Llywodraeth, fe ymddengys, yn bwriadu cyflwyno newid chwyldroadol i'r drefn a'r maes proffesiynol yn pledio am ddatblygiad mwy esblygol sy'n adeiladu ar lwyddiannau cyfredol? Mater o biniwn yn drech na phrofiad?

1.5 Deddf a Strategaeth

Er mor arwyddocaol fydd Deddf Iaith 2011 o ran symbolaeth a chyd-destun, rhaid atgoffa ein hunain mai cymharol gyfyng fydd ei dylanwad ymarferol yn y bôn. Rhan gymharol fechan neu ysbeidiol yw cyswllt uniongyrchol y rhan fwyaf ohonom â gwasanaethau cyhoeddus yn ein bywydau beunyddiol. Onid oes yna berygl i'r broses ddeddfwriaethol dynnu ein sylw oddi ar yr hyn fydd yn gnewylln ac yn graidd i gynllunio iaith yn y cyfnod nesaf - sef, cynnwys y Strategaeth Iaith Genedlaethol newydd?

2. Hyrwyddo'r Gymraeg

Bu'r drafodaeth ynglŷn â pha gerbyd neu gerbydau a fyddai'n fwyaf priodol i gludo'r Strategaeth Iaith Genedlaethol newydd at ei gwaith yn nodwedd amlwg o'r maes polisi cynllunio iaith yn ddiweddar. Cred rhai mai swyddfa'r Comisiynydd arfaethedig fyddai'r cartref gorau i'r Strategaeth ac y byddai'r Strategaeth yn elwa o statws a dylanwad y Comisiynydd. Byddai hefyd, meddai eraill - ar sail wleidyddol ac economaidd - yn sicrhau mai dim ond un corff cyhoeddus fyddai'n ymhél â'r Gymraeg. Dywed eraill y byddai hynny'n gyfystyr â pharhau â Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan enw arall. *Plus ça change plus c'est la même chose*. At hynny, byddai'r diwylliant newydd o reoleiddio a gorfodi, a addewir i ni dan fantell y Comisiynydd, yn ieuo'n anghymarus â'r swyddogaeth o hyrwyddo, annog a datblygu sydd ei angen i weithredu'r Strategaeth.

Mae rhai wedi dadlau o blaid cadw'r ddwy elfen gyda'i gilydd yn y tymor byr rhag colli profiad ac arbenigedd gan eu rhannu maes o law. Mae ymarferoldeb hynny'n amheus. Mae eraill wedi mynegi pryderon am 'law farwol' y gwasanaeth sifil. Mae yna ganfyddiad cyffredinol na fyddai diwylliant ac ethos rheoli'r gwasanaeth sifil yn hwyluso gweithredu'r Strategaeth Iaith Genedlaethol mewn modd creadigol a blaengar. Mae eraill wedi dadlau'n gryf o blaid cadw corff annibynnol rhwng y Llywodraeth a'r Comisiwn gyda'r swyddogaeth o hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn ei adroddiad diweddar *'Creating a Positive Business Environment for Wales'* mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn cynnig 'model both ac adain' (*hub and spoke model*) ar gyfer ad-drefnu'r Adran Economi a Thrafnidiaeth yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r model yn cynnwys both canolog, tipyn llai o faint, o weision sifil a fyddai'n canolbwyntio ar ffurfio polisi ynghyd â monitro a gwerthuso cynnydd, gyda'r ddarpariaeth yn y maes yn cael ei gweithredu gan nifer cyfyngedig o sefydliadau annibynnol o blith y sectorau cyhoeddus a phreifat. Yn yr hinsawdd economaidd a gwleidyddol cyfredol tybed na fyddai model o'r fath yn gweddu'r maes cynllunio iaith yn ogystal. Dychmyger Swyddfa Comisiynydd ar y naill law yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau Cymraeg, hawliau a materion perthynol; ac ar y llaw arall, Uned Iaith Gymraeg ganolog o fewn gweinyddiaeth y Llywodraeth yn arolygu gweithrediad amrywiol themâu'r Strategaeth gan nifer o gyrff annibynnol.

2.1 Cynllunio Corpws

Mae yna un agwedd ar gynllunio iaith sy'n cael ei hanwybyddu neu ei hepgor yn aml iawn – cynllunio corpws. Gochelwn rhag gwneud hynny yma!

Mae cynllunio corpws yn cynnig nifer o arfau ymarferol hynod anhepgorol i'r maes o ran sicrhau hwylustod y broses o ehangu peuoedd y Gymraeg: geirfaeod a thermau, technoleg gwybodaeth, safonau cyfieithu, safoni enwau lleoedd a nifer o agweddau technegol eraill.

Yn fyr, ar drothwy Strategaeth Iaith newydd onid yw'r maes yn ddigon aeddfed bellach yng Nghymru i weld sefydlu Academi Cynllunio Corpws Iaith (dan enw slicach!) i arwain ac i osod yr agenda yn y maes pwysig hwn.

3. Cymunedau â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg

Un o gonglfeini iaith Pawb oedd *"...bod y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal"*. Tasg uchelgeisiol. Yn anffodus, gellid dadlau yn ddigon cadarn na chafodd yr amcan hwnnw sylw dyladwy dros y saith mlynedd ddiwethaf. Un o'r rhesymau am hynny, mae'n siŵr, yw'r union ffaith ei fod yn dasg uchelgeisiol ac yn faes

anodd mynd i'r afael ag e yn ei gyfanrwydd, heb sôn am ambell agwedd a fu'n weidyddol sensitif.

Fodd bynnag, ceir teimlad cadarn o sawl cyfeiriad y dylai'r amcan yma fod yn gwbl flaenllaw yn y Strategaeth laith newydd. Ar sail profiadau byw beunyddiol, mae'r hyn y gellir ei ddarogan am ganlyniadau'r Cyfrifiad mewn rhannau helaeth o'r 'Fro Gymraeg' draddodiadol yn destun gwae. Gellir gobeithio y caiff y pryderon eu gwrthbrofi ond mae'r patrymau demograffig yn amlwg ddigon i bawb sy'n byw yng 'nghadarnleoedd' gwan y gorllewin.

Beth sydd angen ei wneud felly? Beth sydd angen ei daclo gan y Strategaeth newydd?

Mae sawl lefel i'r gweithredu angenrheidiol, wrth reswm. Rhaid wrth ddatblygiadau fframweithiol a all fod o gymorth i sicrhau hyfywedd cymdogaethau Cymraeg eu hiaith. Rhaid hefyd wrth waith cymunedol priodol ac effeithiol ar lefel y cymdogaethau hynny er mwyn grymuso siaradwyr Cymraeg yn eu hunaniaeth, eu gwerthoedd a'u harferion yng nghyswllt y Gymraeg.

3.1 Datblygu economaidd

Ers degawdau cafodd baneri di-ri eu cyhwan er mwyn ceisio tynnu sylw'r rhai sy'n ymwneud â datblygu economaidd at y cyswllt rhwng gwaith ac iaith - yn wir, rhwng tai, gwaith ac iaith, i ailadrodd y slogan. Prin yw'r dystiolaeth eu bod nhw wedi cymryd fawr o sylw. Prin yw'r dystiolaeth fod y Gymraeg yn cael ei hystyried o ddifrif gan weision sifil, yn lleol ac yn genedlaethol, wrth osod strategaethau a blaengareddau ar waith o safbwynt 'adfywio' economi. Oes, mae yna gyfeiriadau achlysurol at y Gymraeg fel thema lorweddol mewn dogfennaeth strategol ac ati ond prin fod yna unrhyw amcanion a thargedau caled wedi eu gosod yn y cyd-destun hwn.

Oni ddylai fod yna strategaeth benodol, glir a chroyw, sy'n cynnig asesiad o effaith strategaethau cyfredol ar hyfywedd y Gymraeg yn ei chymunedau cadarnaf, ynghyd â thynnu blaengareddau cyfredol at ei gilydd a'u cydgyfeirio o blaid adeiladu economi lle mae'r Gymraeg a chynhaliu y Gymraeg yn y cymunedau hyn yn amcan canolog? Strategaeth gadarn a all gael ei mesur a'i monitro'n fanwl.

3.2 Gweithleoedd Dwyieithog

Byddai datblygu gweithleoedd dwyieithog - gwaith sydd eisoes wedi dechrau - yn allweddol i'r fath Strategaeth. Oni ddylid hefyd bennu ardaloedd megis Caerfyrddin, Aberystwyth a Glannau Menai yn ardaloedd twf lle byddai blaenoriaeth amlwg yn cael ei rhoi i sicrhau economi sy'n rhoi gwerth blaenllaw ar y Gymraeg ac ar sgiliau Cymraeg?

3.3 Cymraeg i Oedolion

Gwerir rhai miliynau yn flynyddol ar y gyfundrefn Cymraeg i Oedolion yng Nghymru. Efallai nad yw hynny mor hael â'r hyn sy'n cael ei wario yng Ngwlad y Basg ond mae'n swm sylweddol serch hynny. Y cwestiwn i ofyn yw a yw'n swm sylweddol sy'n cael ei wario yn y modd mwyaf effeithiol?

Mae rhan helaethaf y cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn cael eu darparu yn y gymuned i ddysgwyr sy'n ceisio caffael y Gymraeg fel gweithgaredd hamdden. Serch ymdrechion glew tiwtoriaid a gweinyddwyr y Canolfannau mae'n gwbl wybyddus fod y niferoedd sy'n mynd drwy'r system hon ac yn ei gadael hi, am wahanol resymau, heb lwyddo i ddod yn rhugl yn frawychus. Ar y llaw arall mae nifer o gyflogwyr yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gyrsiau dysgu iaith a chefnogaeth gloywi iaith sy'n ddigon pwrpasol a hyblyg i gwrdd ag anghenion eu staff. Onid gwell, felly, fyddai gwario'r gyllideb Cymraeg i Oedolion ar raglen genedlaethol drwyadl i ddysgu a gloywi iaith gweithwyr mewn sefydliadau cyhoeddus (a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan) gan adael i'r dysgwr 'amser hamdden' dalu'n helaethach am gael dilyn ei ddiddordeb? Oni fyddai hynny'n ddull mwy cydlynus ac effeithlon o wario arian cyhoeddus prin?

3.4 Tai a chynllunio

Yn y maes cynllunio gwlad a thref mae'r arweiniad gwan ac amhendant a roddwyd hyd yma gan y Llywodraeth i awdurdodau cynllunio lleol hefyd yn bwnc sydd wedi rhygnu ymlaen yn rhy hir. Mae'n rhaid ailafael o ddifrif yn y dasg o ddarparu canllaw ystyrlon ac eglur ar bolisi cynllunio a hynny'n fuan. Serch hynny, rhaid cofio mai cymharol wantan yw dylanwad uniongyrchol polisïau cynllunio defnydd tir ar y mater hwn mewn gwirionedd. Mae'r cwestiwn ynglŷn â sut orau i sicrhau stoc dai ddigonol at anghenion lleol mewn modd sy'n cryfhau'r Gymraeg yn llawer ehangach na hynny'n unig. Mae'n cwmpasu'r rheoliadau sydd ar gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, argaeledd 'tai fforddiadwy', amodau morgeisi a'r farchnad dai benrhydd. Tybed na allai'r Strategaeth iaith newydd nodi bwriad i sefydlu Cynhadledd Genedlaethol Sefydlog i drafod a datblygu polisi cydlynus ar y materion hyn? Ymddengys bod hawliau deddfu newydd y Cynlluniad yn y maes tai yn gyfle euraidd i wneud hynny.

3.5 Datblygu cymunedol

Er bod gweithrediad polisi cyhoeddus a strategaethau fframweithiol yn effeithio ar strwythurau cymdeithasol ein cymdogaethau Cymraeg, rhaid hefyd gweithio ochr yn ochr â'r cymdogaethau hynny os am sicrhau eu parhad.

Y mentrau iaith, yn anad neb, sydd wedi eu gwysio i wneud hynny dros y degawd diwethaf, gan dderbyn miliynau o bunnoedd o arian cyhoeddus i hwyluso'r dasg. Yn y cyswllt hwnnw, rhaid bellach gofyn y cwestiwn plaen - a oes gyda ni yn y proffesiwn cynllunio iaith yng Nghymru y weledigaeth, y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ymwneud â'r dasg honno yn wirioneddol effeithiol? Yr ateb plaen ar y cyfan (gydag ambell eithriad gloyw) yw: ar hyn o bryd - nag oes.

Er tegwch, mae gweithgaredd a dull gweithredu'r mentrau iaith yn medru amrywio'n fawr. Prin yw'r mentrau, fodd bynnag, sydd wedi medru datblygu modd i weithio'n ddeallus ac ystyrlon ar lefel *micro* gyda chymdogaethau unigol. Mae lle i rwydweithio a cheisio dylanwadu ar weithgareddau cyrff sirol a rhanbarthol, yn sicr, ond mae'n rhaid hefyd dechrau mabwysiadu dull mwy uniongyrchol o weithio â siaradwyr Cymraeg ac unigolion di-Gymraeg yn ein cymdogaethau. Gellid dadlau bod y swyddogion Ardaloedd Gweithredu Iaith a sefydlwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn gam i'r cyfeiriad iawn ond prin yw'r dystiolaeth eu bod yn dilyn unrhyw athroniaeth neu fethodoleg gydnabyddedig sy'n tynnu ar hanfodion cynllunio iaith ac egwyddorion gwaith datblygu cymunedol. Mater o reddf a gobaith yw hi yn aml. Mae'n rhy hwyr yn y dydd i ni ddibynnu ar ddulliau *ad hoc* o'r fath bellach.

Mae dull gwaith y Pwerdai yng Ngheredigion yn cynnig un model parod. Mae'n fodel sy'n pwysleisio dulliau datblygu cymunedol o gydweithio ochr yn ochr â chymdogaethau Cymraeg lleol er mwyn eu grymuso i allu cynllunio'n hyderus ar gyfer cynnal hyfywedd ieithyddol eu cymdogaeth eu hunain, gan ymestyn allan yr un pryd at fewnfudwyr ac eraill sydd â chydymdeimlad â'r diwylliant cysefin. Rhag bod yn rhy chwyrn tuag at y maes Cymraeg i Oedolion, mae'n siŵr ddigon y gallai'r ymestyn allan hwnnw gynnwys rhywfaint o ddysgu Cymraeg i Oedolion, a bod y ddarpariaeth wedi ei thargedu at deuluoedd ifanc a grwpiau blaenoriaeth eraill. Mae'r Fframwaith ar gyfer Cymdogaethau Cymraeg a gyhoeddwyd yn ddiweddar dan fantell Bwrdd yr Iaith hefyd yn gosod arf defnyddiol i ni symud i'r cyfeiriad hwn.

Tybed nad yw'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn gyfle i edrych o'r newydd ar waith y mentrau iaith yn hytrach na pharhau i rygnu ymlaen mewn rhai hen rigolau arwynebol. Rhaid codi'r gêm. Mae angen dogn cryf o addysg a hyfforddiant priodol yn allweddol i wireddu hynny. Oni ddylid, yn rhan o'r Strategaeth iaith, fynd ati ar unwaith i sefydlu tystysgrif ôl-radd mewn Cynllunio Iaith Cymhwysol a fyddai'n gymwys ar gyfer cyd-destunau cymunedol a chorfforaethol yn ôl y galw?

4. Addysg Cyfrwng Cymraeg

Bu croeso mawr i'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ddiweddar. A haeddiannol hynny. Dyma'r gyntaf, ac mae llawer o ganmol ar y Strategaeth, yn enwedig y pwyslais ynddi ar ddibenion addysg Gymraeg yng nghyswllt datblygu sgiliau at ddefnydd teuluoedd, cymunedau a'r gweithle. Tybir fod yna gonsensws fod y Strategaeth yn mynd i'r afael â phrif ofynion y maes yn hynod o drwyadl. Y gobaith bellach yw y bydd y Gweinidog Addysg yn sicrhau fod ei Adran yn gweithredu'r Strategaeth mewn modd cadarn, egniol a dylanwadol. Fodd bynnag, nid yw pawb wedi eu hargyhoeddi hyd yma fod uchel swyddogion APADGOS yn gosod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ddigon uchel ar restr eu blaenoriaethau. Amser a ddengys.

4.1 Awdurdodau addysg lleol

Ceir pryder mewn ambell ardal am ymrwymiad awdurdodau addysg lleol at ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Tybed ai addurn arall ar siolf fydd y Strategaeth Addysg mewn ambell i sir? Yn wir, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae rhai eisoes yn gofyn: i ba raddau y dylid cynllunio addysg Gymraeg (ac addysg yn gyffredinol o ran hynny) ar sail ranbarthol yn hytrach nag yn sirol? Onid yw hi'n haws cynllunio addysg gydol oes ar delerau felly?

4.2 Addysg Bellach

Tra bod gwaith da a datblygiadau cyffrous ar droed yng nghyswllt addysg gynradd, addysg uwchradd ac addysg uwch, mae addysg bellach yn peri cryn bryder i lawer o safbwynt cynllunio iaith. Mae myfyrwyr y sector yma yn debygol iawn o aros yn eu bröydd a'u cymdogaethau. Dyma'r union fyfyrwyr a ddaw yn asgwrn cefn ein cymdogaethau a'n rhwydweithiau Cymraeg lleol. Mae'n gwbl hanfodol fod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei datblygu'n norm mewn rhannau helaeth o'r gyfundrefn addysg bellach er mwyn atgyfnerthu gwerth y Gymraeg mewn addysg a gwaith a chynyddu hyder ei siaradwyr i'w defnyddio yn eu cymdogaethau. Mae'r agenda Addysg 14-19 oed gyfredol yn gyfle euraidd i wneud hynny os gallwn ddod o hyd i atebion dychmygus.

4.3 Sgiliau iaith yn y gweithle

Ar nodyn cysylltiol: pa bryd mae awdurdodau lleol yn mynd i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad anferth a wneir gan rai ohonynt i feithrin sgiliau Cymraeg mewn plant a phobl ifanc drwy sicrhau dilyniant mewn cyfrwng addysg a gosod disgwyliadau ieithyddol fel cyflogwyr? Ymddengys i unrhyw sylwebydd annibynnol fod yna wastraffu cwbl ddiangen ar fuddsoddiad cyhoeddus wrth i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill fethu â chymryd mantais o'r adnoddau ieithyddol y maen nhw'u hunain wedi eu datblygu. Eto, mae'r diffyg wrth lunio polisïau cydlynus yn amlwg.

4.4 Grymuso athrawon

Tra bod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn rhoi pwyslais priodol ar yr angen i gymryd sylw o'r galw o du rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, mae llawer i'w wneud eto o ran cefnogi rhieni yn eu dewisiadau. Yn wir, mae ymarferiadau ymchwil diweddar yn awgrymu bod angen cefnogi athrawon yn fwy cadarn yn hyn o beth. Ydyn ni'n euog o gymryd yn ganiataol fod athrawon yn gyfarwydd â hanes twf addysg Gymraeg, y rhesymau dros y datblygiad a'r budd sy'n deillio ohoni? Ydyn ni'n cymryd yn ganiataol eu bod yn ddigon gwybodus a hyderus i gefnogi rhieni a theuluoedd yn eu dewisiadau iaith a'u helpu nhw i ddod o hyd i atebion i'w pryderon a'u cwestiynau trwy gyfeirio at gorff o ymchwil rhyngwladol, er enghraifft? Ydyn nhw wedi eu hymrymuso'n ddigonol i fedru cyfrannu'n ystyrlon at ymdrechion amrywiol i atgyfnerthu'r Gymraeg yn eu cymdogaethau? Oni ddylid cynnwys mewn cyrsiau hyfforddi athrawon dros y blynyddoedd nesaf: gadarnhad o fudd addysg cyfrwng Cymraeg, dogn go dda o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, elfen o amlinellu egwyddorion cynllunio iaith a hyfforddiant cadarn ar sut orau i gefnogi rhieni a theuluoedd trwy yrfa addysgol cyfrwng Cymraeg eu plant?

5. Gwneuthurwyr polisi: Y Gwasanaeth Sifil

Un o'r themâu cyson sy'n codi wrth drafod materion cynllunio iaith gyda gweithredwyr mewn amryfal feysydd yw'r diffyg cysondeb a geir o du gweision sifil Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran polisi a gweithredu yng nghyswllt y Gymraeg. Er bod rhaid cydnabod yn syth fod yna unigolion, unedau ac adrannau sy'n fwy gwybodus, goleuedig a brwd na'i gilydd yn y pethau hyn - yr argraff gyffredinol a geir ar lawr gwlad yw nad yw polisïau'r Llywodraeth mewn perthynas ag *iaith Pawb* wedi treiddio drwy ran helaethaf y Weinyddiaeth. Dichon fod hynny i'w ddisgwyl braid. Wedi'r cwbl, nid yw hanes, traddodiad a diwylliant y Weinyddiaeth Sifil yng Nghymru yn hwyluso'r gwaith o roi bri a sylw deallus i'r Gymraeg. Cynnar yw hi hefyd yn hanes y Cynulliad Cenedlaethol a dichon y bydd rhaid gweld proses go faith cyn i bob rhan o'r Weinyddiaeth Sifil yng Nghymru sylweddoli fod y cyd-destun polisi wedi newid yn sylfaenol.

Bu prif-frydio yn air mawr ymysg cynllunwyr iaith yn ystod y cyfnod diwethaf. Prin fod y cysyniad wedi gwreiddio'n ddwfn y tu allan i'r proffesiwn, fodd bynnag, ac mae penderfyniadau a wneir gan weision Llywodraeth y Cynulliad (os nad y gwleidyddion hefyd) yn parhau i filwrio yn erbyn buddiannau'r Gymraeg yn aml.

Un enghraifft amlwg yn ddiweddar fu penodiad ymgynghorydd di-Gymraeg yn Brif Weithredwr dros dro i Gyngor Sir Ynys Môn - un o'n 5 awdurdod lleol Cymreiciaf. Mae'n debyg fod hyn wedi esgor ar duedd gyffredinol yn yr awdurdod,

gydag unigolion di-Gymraeg eraill yn cael eu penodi yn ymgynghorwyr dylanwadol i'r awdurdod. Waeth bynnag am wella effeithiolrwydd gweithrediad yr awdurdod mae'n amlwg na roddwyd sylw priodol i effaith andwyol debygol hyn ar bolisiâu iaith a bwriadau'r Llywodraeth o ran hyrwyddo'r Gymraeg. Ar yr un pryd, yn ddigon eironig, bu un arall o asiantaethau'r Llywodraeth, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn noddi cynllun i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yng ngweithleoedd y Cyngor. Ar yr un thema, mae Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru (PSMW) yn esiempl arall o gorff nad yw'n cymryd yr un iot o sylw o anghenion y Gymraeg wrth gyfarwyddo a chefnogi ein prif sefydliadau cyhoeddus.

Gellid disgwyl, yn ddigon teg, y byddai gweision sifil Cymru yn cael eu hyfforddi ynglŷn â bwriadau polisi cyhoeddus mor llorweddol (i ddefnyddio'r jargon) â'r bwriad i greu Cymru ddwyieithog. Byddai'n gryn syndod darganfod fod hynny'n digwydd mewn unrhyw fodd ystyrlon. Fodd bynnag, mae'r broblem sylfaenol yn ddyfnach o lawer na hynny ac yn deillio, mae'n siŵr, o set o werthoedd traddodiadol nad ydynt yn rhoi bri ar y Gymraeg o fewn gweinyddiaeth gyhoeddus Prydain Fawr. Onid yw'n hen bryd i ni sefydlu coleg gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru lle y gellid dechrau gosod y seiliau ar gyfer diwylliant gweinyddiaeth gyhoeddus sy'n cydnabod ac yn deall anghenion a buddiannau iaith gysefin y wlad y mae'r gweision sifil yn ei gwasanaethu?

I Gloi

Beth bynnag yw eich atebion i'r cwestiynau a godir yma, neu'ch ymateb i'r sylwadau a fynegir, mae dau beth yn sicr. Yn gyntaf, bod angen mwy o gyfleoedd arnom i drafod y materion hyn a materion tebyg mewn modd aeddfed a deallus fel corff o weithredwyr proffesiynol. Ac yn ail, pa bynnag syniadau fydd yn dwyn egin a ffrwyth maes o law, bydd angen i ni, fel proffesiwn, sicrhau gweithlu gwybodus a sgilgar i'w gweithredu nhw; gweithlu sydd â gafael cadarn ar hanfodion cynllunio iaith. Mae'n bryd i ni ddechrau adeiladu'r gweithlu a'r proffesiwn yma o ddifrif.

Gareth Ioan
Awst 2010

Atodiad:

Gorwelion newydd: y cwestiynau allweddol

Statws

Oni ddylid sicrhau datganiad clir a diamwys o statws swyddogol y Gymraeg yn Neddf Iaith 2011?

Hawliau

Er mwyn egluro'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg mewn modd symlach ac uniongyrchol oni ddylid sicrhau set o wasanaethau craidd y bydd gan bob siaradwr Gymraeg (ac eraill) hawl ddiymwad iddyn nhw?

Cynlluniau Iaith Gymraeg

Gyda chryn fesur o eironi, mae'r Llywodraeth, fe ymddengys, yn bwriadu cyflwyno newid chwyldroadol i'r drefn Cynlluniau Iaith Gymraeg tra bo'r maes proffesiynol yn pledio am ddatblygiad mwy esblygol sy'n adeiladu ar lwyddiannau cyfredol. Mater o biniwn yn drech na phrofiad?

Deddf a Strategaeth

Er mor arwyddocaol fydd Deddf Iaith 2011 onid oes yna berygl i'r broses ddeddfwriaethol dynnu ein sylw oddi ar gnewyllyn a chraidd cynllunio iaith yn y cyfnod nesaf - sef, cynnwys y Strategaeth Iaith Genedlaethol newydd?

Hyrwyddo'r Gymraeg

Oni ddylid ystyried 'model both ac adain' (*hub and spoke model*) ar gyfer gweithredu amrywiol themâu'r Strategaeth Iaith Genedlaethol?

Cynllunio Corpws

Oni ddylid sefydlu Academi Cynllunio Corpws Iaith (dan enw slicach!) i arwain ac i osod yr agenda yn y maes pwysig hwn?

Datblygu economaidd

Oni ddylid cael strategaeth benodol, glir a chroyw, sy'n cynnig asesiad o effaith strategaethau cyfredol ar hyfywedd y Gymraeg yn ei chymunedau cadarnaf, ynghyd â thynnu blaengareddau cyfredol at ei gilydd a'u cydgyfeirio o blaid adeiladu economi lle mae'r Gymraeg a chynhalieth y Gymraeg yn y cymunedau hyn yn ganolog?

Gweithleoedd Dwyieithog

Oni ddylid pennu ardaloedd megis Caerfyrddin, Aberystwyth a Glannau Menai yn ardaloedd twf lle byddai blaenoriaeth amlwg yn cael ei rhoi i sicrhau economi sy'n rhoi gwerth blaenllaw ar y Gymraeg ac ar sgiliau Gymraeg?

Cymraeg i Oedolion

Onid gwell fyddai gwario'r gyllideb Gymraeg i Oedolion ar raglen genedlaethol drwyadl i ddysgu a gloywi iaith gweithwyr mewn sefydliadau cyhoeddus (a

sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan) gan adael i'r dysgwr 'amser hamdden' dalu'n helaethach am gael dilyn ei ddiddordeb fin nos?

Tai a chynllunio

Tybed na allai'r Strategaeth Iaith newydd nodi bwriad i sefydlu Cynhadledd Genedlaethol Sefydlog i drafod a datblygu polisi cydlynus ym maes tai a chynllunio? Ymddengys fod hawliau deddfu newydd y Cynlluniad yn y maes tai yn gyfle euraid i wneud hynny.

Datblygu cymunedol

Tybed nad yw'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn gyfle i edrych o'r newydd ar waith datblygu cymunedol y mentrau iaith a datblygu dulliau gweithredu newydd?

Addysg a hyfforddiant proffesiynol

Oni ddylid mynd ati ar unwaith i sefydlu tystysgrif ôl-radd mewn Cynllunio Iaith Cymhwysol a fyddai'n gymwys ar gyfer cyd-destunau cymunedol a chorfforaethol yn ôl y galw?

Awdurdodau addysg lleol

I ba raddau y dylid cynllunio addysg Gymraeg (ac addysg yn gyffredinol tase'n dod i hynny) ar sail ranbarthol yn hytrach nag yn sirol?

Addysg Bellach

Onid yw'n gwbl hanfodol datblygu addysg cyfrwng Gymraeg yn norm mewn rhannau helaeth o'r gyfundrefn addysg bellach er mwyn atgyfnerthu gwerth y Gymraeg mewn addysg a gwaith a chynyddu hyder ei siaradwyr i'w defnyddio yn eu cymdogaethau?

Sgiliau iaith yn y gweithle

Pa bryd mae awdurdodau lleol yn mynd i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad anferth a weir gan rai ohonynt i feithrin sgiliau Gymraeg mewn plant a phobl ifanc drwy sicrhau dilyniant mewn cyfrwng addysg a gosod eu disgwyliadau ieithyddol fel cyflogwyr?

Grymuso athrawon

Ydyn ni'n cymryd yn ganiataol bod athrawon yn ddigon gwybodus a hyderus am fuddiannau addysg Gymraeg i fedru cefnogi rhieni a theuluoedd yn ystyrlon yn eu dewisiadau iaith ar gyfer eu plant?

Y Gwasanaeth Sifil

Onid yw'n hen bryd i ni sefydlu coleg gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru lle y gellid dechrau gosod y seiliau ar gyfer diwylliant gweinyddiaeth gyhoeddus sy'n cydnabod ac yn deall anghenion a buddiannau iaith gysefin y wlad y mae'r gweision sifil yn ei gwasanaethu?



y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning
